OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2003 Rhif 3223 (Cy.306)

# PLANT A PHOBL IFANC, CYMRU
# GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU

## Rheoliadau Asiantaethau Mabwysiadu (Diwygio) (Cymru) 2003

| | |
|---|---|
| *Wedi'u gwneud - -* | *9 Rhagfyr 2003* |
| *Yn dod i rym - -* | *11 Rhagfyr 2003* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 9(2) a (3) o Ddeddf Mabwysiadu 1976(**1**) drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau canlynol:—

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Asiantaethau Mabwysiadu (Diwygio) (Cymru) 2003 a deuant i rym ar 11 Rhagfyr 2003.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru.

### Diwygio rheoliad 5A o Reoliadau Asiantaethau Mabwysiadu 1983

**2.** Yn rheoliad 5A o Reoliadau Asiantaethau Mabwysiadu 1983(**2**) (deiliadaeth swydd aelodau), ar ôl paragraff (1), mewnosoder —

"(1A) Where —

(a) a member of an adoption panel holds office and is in his second consecutive term as a member of that panel; and

(b) his term of office is due to expire on or after 31st December 2003,

the adoption agency may extend the term of office of that member for a further period not exceeding two years.".

(**1**) 1976 p.36. Diwygiwyd adran 9(2) o Ddeddf Mabwysiadu 1976 ("Deddf 1976") gan adran 116 o Ddeddf Safonau Gofal 2000 a pharagraff 5(6)(a) o Atodlen 4 iddi (p.14). Mae'r pwerau yn adran 9(2) a (3) yn arferadwy gan y "Gweinidog priodol" a diffinnir ef yn adran 9(5) o Ddeddf 1976 mewn perthynas â Chymru fel Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Mewnosodwyd adran 9(5) o Ddeddf 1976 gan adran 139(2) o Ddeddf Mabwysiadu a Phlant 2002 a pharagraff 4(1)(b) o Atodlen 4 iddi (p.38).

(**2**) O.S. 1983/1964. Mewnosodwyd Rheoliad 5A gan gan O.S. 1997/649.

***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**3**)

*D. Elis-Thomas*

9 Rhagfyr 2003

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**3**) 1998 p.38.

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Asiantaethau Mabwysiadu 1983 ("Rheoliadau 1983") ac maent yn gymwys i Gymru.

Mae Rheoliad 2 yn diwygio rheoliad 5A o Reoliadau 1983 er mwyn darparu y caiff asiantaeth fabwysiadu estyn cyfnod swydd aelod o banel mabwysiadu sydd yn ei swydd am yr ail gyfnod olynol ac mae'r cyfnod hwnnw'n dod i ben ar neu ar ôl 31 Rhagfyr 2003 am gyfnod pellach o ddwy flynedd.

Nid yw'r Rheoliadau hyn yn gosod costau ar fusnes.